



CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl gydweithwyr,

31/01/2023

Rwy'n hynod falch bod dau gydweithiwr wedi'u cynnwys yn rhestr 100 o Ysgogwyr Newid Cenedlaethau'r Dyfodol am eu hymdrechion i wneud newidiadau cadarnhaol i'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru. Lluniodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe, y rhestr i dynnu sylw at waith pobl sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r genedl ac fe'i cyhoeddwyd mewn digwyddiad arbennig yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yr wythnos ddiwethaf.

Cafodd Simone Joslyn, Pennaeth Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro a Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles, ei chydnabod am yr effaith gadarnhaol mae ei thîm yn ei chael ar iechyd a lles. Gyda chefnidir mewn nyrsio iechyd meddwl, mae Simone wedi gweld dros ei hun yr effaith gadarnhaol y mae prosiectau creadigol a chelf yn ei gael ac mae ei thîm wedi creu lleoedd yn holistaidd gan roi ystyriaeth i les. Mae Ein Dôl Iechyd yn ofod arloesol newydd yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau, sydd â pharc iechyd ecolegol i'r gymuned gyda'r bwriad o gynnig manteision i fywyd gwyllt, planhigion a phobl trwy ryngweithio cadarnhaol rhwng bodau dynol a'r amgylchedd.

Mae Dr Tom Porter, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus yn y Bwrdd Iechyd, yn helpu i sicrhau newid mewn dulliau

teithio ym mhrifddinas Cymru. Yn angerddol dros wneud i systemau trafndiaeth weithio ar gyfer pobl, arweiniodd Tom ddatblygiad y Siarter Teithio Iach ac mae wedi bod yn rhan allweddol o rai o'r newidiadau mawr i deithio llesol yn y brifddinas, gan gydweithio â thimau Trafnidiaeth Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Caerdydd, Sustrans, Trafnidiaeth Cymru, a holl lofnodwyr y Siarter Teithio Iach, gan gynnwys BIP Caerdydd a'r Fro.

Yr wythnos ddiwethaf, gwelsom ragor o streicio gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) ac rydym yn disgwyl mwy o weithredu ddydd Llun a dydd Mawrth nesaf pan fydd y Coleg Nyrsio Brenhinol, Coleg Brenhinol y Bydwagedd a Chymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion hefyd yn mynd ar streic, gyda streiciau pellach ar ran WAST wedi'u cynllunio hefyd ar y dydd Llun.

Hoffwn ddiolch i'n holl gydweithwyr am yr amser a'r ymdrech a roddir i gynllunio a pharatoi'r dyddiau streic i gynnal diogelwch cleifion, yn enwedig y cynllunio gweithgareddau, gyda gwaith gwella, gweithgarwch cleifion allanol a gofal wedi'i gynllunio yn parhau cyn belled ag y bo'n ddiogel i wneud hynny.

Fel bwrdd iechyd, hoffwn bwysleisio ein bod yn cefnogi pleidlais ein cydweithwyr i streicio mewn modd heddychlon ac

yn gwerthfawrogi'r ymdrechion i alluogi cydweithwyr i wneud hynny.

Rwyf hefyd yn falch o groesawu James Quance i dîm Caerdydd a'r Fro wrth iddo ymuno fel Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro, wrth i ni ffarwelio â Nicola Foreman sy'n ein gadael yr wythnos hon ar ôl pedair blynedd a hanner. Dymunwn y gorau i Nikki yn ei rôl newydd.

Mae James yn ymuno â ni ar secondiad o NWSSP. Mae ganddo dros 25 mlynedd o brofiad o weithio gyda'r GIG a'r sector cyhoeddus yn ehangach yng Nghymru ac mae'n dod o rôl debyg ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae'r broses recriwtio ar y gweill ar gyfer y rôl barhaol ac rydym eisoes wedi siarad â nifer o ymgeiswyr diddorol iawn sydd â diddordeb yn y rôl.

Yn olaf, hoffwn atgoffa pobl fod ein Canolfannau Brechu Torfol yn Nhŷ Coetir yn Llanisien a Holm View yn y Barri nawr ar agor bob dydd rhwng 10am a 7pm i gael eich brechlynnau COVID-19 a'r fflw. Mae'r sesiynau galw heibio hefyd ar gael i blant a gollodd eu brechiad rhag y fflw drwy'r ysgol. Mae afiechydon anadlol yn dal i gylchredeg yn y gymuned felly cael eich brechu yw'r ffordd orau o amddiffyn eich hun.

Y Gweinidog Iechyd yn ymweld ag Ysbyty Llandochau

Bu'r Gweinidog Iechyd, Eluned Morgan yn ymweld â dwy ganolfan sydd newydd agor yn Ysbyty Llandochau, gyda channoedd o gleifion yng Nghymru yn elwa arnynt.

Charles Janczewski, Cadeirydd BIP Caerdydd a'r Fro, a groesawodd y Gweinidog i'r ysbyty a hwyluso'r ymweliad er mwyn tynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud yn y ddwy ganolfan brysur yma.

Man galw cyntaf y Gweinidog oedd Canolfan Ffeibrosis Systig (CF) Cymru Gyfan i Oedolion a leolir yn Ysbyty Athrofaol Llandochau, sy'n darparu gofal CF arbenigol i fwy na 350 o gleifion sy'n oedolion ar draws Cymru a'r gororau. Dyma'r unig ganolfan CF i oedolion yng Nghymru.

Dr Ian Ketchell a'r Meddyg Ymgynghorol, Jamie Duckers oedd yn cynnal y daith o amgylch yr uned a agorodd yn 2021, gyda ward ag 16 ystafell wely en-suite newydd ei chwblhau, campfa mwy i gleifion yn yr ardal cleifion allanol a thair ystafell wely en-suite ar gyfer heintiau penodol ar wardiau allanol.



Yn ystod ei hymweliad, siaradodd y Gweinidog â staff a chleifion am y datblygiadau mewn gwyddoniaeth feddygol gan gynnwys therapïau modiwlleiddio sydd wedi arwain at ddisgwyliad oes hirach i gleifion â CF.

Nesaf cafodd y Gweinidog gyfle i weld yr Uned Adsefydlu yr Asgwrn Cefn a Niwroadsefydlu newydd a symudodd o Ysbyty Rookwood i Llandochoau yn 2021.

Bu Sarah Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Bwrdd Clinigol Arbenigol, Carly Simpson, Nyrs Arweiniol ar gyfer y Niwrowyddorau, a Beth Owen, Uwch Nyrs ar gyfer y Niwrowyddorau, yn siarad am y manteision i gleifion ag anafiadau niwro ac anafiadau i'r asgwrn cefn sy'n cael eu cynnig gan yr uned newydd.

Mae gan y wardiau newydd offer a chyfleusterau adsefydlu o'r radd flaenaf gan gynnwys pwll hydrotherapi, campfa ac ystafelloedd ymgynghori. Mae'r cyfleusterau hyn yn rhoi'r cyfle gorau posibl i gleifion adfer a gwella eu cynnydd o ran adsefydlu.

Yn ogystal â gweld y cyfleusterau newydd, cafodd y Gweinidog gyfle i siarad â staff a chleifion a mwynhau ymweliad â'r gerddi therapi sydd wedi eu sefydlu ar gyfer cleifion, mewn cydweithrediad rhwng Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro ac Elusen Horatio's Garden.



Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Eluned Morgan:

"Roedd yn bleser ymweld â'r Ganolfan Ffeibrosis Systig Cymru Gyfan i Oedolion a'r Uned Adsefydlu Arbenigol yr Asgwrn Cefn a Niwroadsefydlu newydd yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau. Roedd yn ysbrydoledig cwrdd â staff a chlywed am yr holl waith anhygoel sy'n digwydd yma ac rwy'n falch o weld canlyniadau buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y cyfleusterau hyn."

Meddygfa Heol yr Eglwys Newydd yn agor ei drysau yn swyddogol

Mae canolfan feddygol arloesol newydd sbon Meddygfa Heol yr Eglwys Newydd wedi agor ei drysau i gleifion, llai na 200 metr o'i safle blaenorol. Mae'r adeilad newydd, a agorwyd yn swyddogol neithiwr ac a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig ystafelloedd ymgynghori a chapasiti ychwanegol, ardaloedd triniaeth penodedig, gan gynnwys lle ar gyfer mân lawdriniaethau, derbynfa eang a chyfforddus a fferyllfa ar y safle.



Ar ôl gweithredu am flynyddoedd o dŷ teras tri llawr wedi'i addasu yng nghanol prysurdeb Heol yr Eglwys Newydd, mae adeilad newydd y practis wedi'i adeiladu ar hen Safle Rhandiroedd Rhodfa Sachville.

Gan gefnogi'r practis i ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol i'r gymuned, bydd yr adeilad newydd yn rhoi'r lle modern sydd ei angen ar dîm y practis i ehangu'r ystod o wasanaethau y mae'n gallu eu darparu i'w gleifion cofrestredig.

Dywedodd Dr Gareth Lloyd, Uwch Bartner, Meddygfa Heol yr Eglwys Newydd: "Mae hwn yn gam mawr i'n cleifion a'n staff a bydd yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol mewn adeilad addas sydd â'r capasiti i ateb y galw. Mae'r safle newydd hwn hefyd yn ein galluogi i ymestyn ein capasiti hyfforddi i gefnogi hyfforddiant meddygon y dyfodol, rhywbeth y mae'r feddygfa bob amser wedi'i gefnogi fel practis hyfforddi sefydledig. Mae staff a chleifion eisoes yn elwa ar yr amgylchedd newydd, ac rydym eisoes wedi derbyn adborth hynod gadarnhaol gan gleifion sydd wedi bod i'r practis newydd."



Mae'r datblygiad hwn wedi bod yn bosibl o ganlyniad i fisoedd o waith rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Meddygfa Heol yr Eglwys Newydd ac Assura plc fel y datblygwr trydydd parti arbenigol a benodwyd a'r Gymdeithas Rhandiroedd leol – Cymdeithas Rhandiroedd Rhodfa Flaxland.

Gŵyl Genomeg a Bioddata 2023

Yr wythnos ddiwethaf, fe ddychwelodd yr Ŵyl Genomeg hir ddisgwyledig yng Nghanolan Dylunio Busnes Llundain. Mae'r ŵyl yn un o'r rhai mwyaf yn y DU ac mae llu o weithwyr proffesiynol y diwydiant o bob rhan o'r byd ac academyddion o feysydd ieuchyd, technoleg a'r gwyddorau bywyd yn mynychu.



Roedd yn wych gweld cymaint o gydweithwyr o Wasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan (AWMGS), Parc Geneteg Cymru a'r Uned Genomeg Pathogen (PenGu) yn dangos eu cyflawniadau diweddaraf a'r weledigaeth strategol ar gyfer Cymru sy'n sail i'r cynllun Cyflawni Genomeg 2022-25.

Cafodd cynrychiolwyr a fynychodd y digwyddiad wrando ar lu o sgysiau allweddol gan banelwyr arbenigol gan gynnwys ein

clinig arloesol 'Syndrom Heb Enw' (SWAN), cyfleoedd a heriau dilyniannu genomig cyflym cyflawn ar gyfer diagnosis a sgrinio cleifion pediatrig difrifol wael a rôl hanfodol microbioleg wrth ddarparu dilyniannu o dros 100,000 o samplau COVID-19 i ganfod amrywiolyn a data i ddeall yn well sut mae'r coronafeirws wedi esblygu.

Diolch arbennig i Sian Morgan, Cyfarwyddwr Labordai AWMGS, Angus Clarke, Athro Clinigol ym Mhrifysgol Caerdydd, Rob Orford, y Prif Gynghorydd Gwyddonol ar lechyd yn Llywodraeth Cymru a Hywel Williams, Uwch Ddarlithydd mewn Biowybodeg ym Mhrifysgol Caerdydd, ac i'r holl siaradwyr eraill am eu cyflwyniadau ysbrydoledig a oedd mor addysgiadol ac wedi rhoi Cymru yn gadarn ar y map fel arweinydd yn y sector genomeg.

Gwnewch gais ar gyfer trydedd flwyddyn Rhaglen Arweinyddiaeth Climb

Yn ddiweddar, cafodd y Tîm Gweithredol y pleser o gyfarfod â chydweithwyr BIP Caerdydd a'r Fro a raddiodd o flwyddyn gyntaf Rhaglen Arweinyddiaeth Climb. Datblygwyd Climb gan dîm Sefydliad Calon y Ddraig Caerdydd a'r Fro fel ymateb i bandemig COVID-19 a rhai o'r gwersi mewn arweinyddiaeth y bu'n rhaid i'r system ddysgu yn ystod yr adegau digynsail, ansicr hynny.

Mae Climb yn agored i unrhyw arweinydd presennol, neu arweinydd y dyfodol, ar draws Cymru ac mae'r tîm o BIP Caerdydd a'r Fro wedi bod yn ein difyrru gyda'u profiad o'r cwrs 10 mis hwn. Mewn rolau arwain, neu os ydych chi'n ceisio newid y status quo, gallwch deimlo, yn aml, eich bod chi'n


gwneud hynny ar eich pen eich hun neu eich bod yn dioddef o bethau fel syndrom twyllwr. Mae'r tîm wedi dweud wrthym fod Climb yn gwbl wahanol i hyn; ei fod yn gymuned yn hytrach nag yn gwrs.

Bu'n ddiddorol gweld y gwaith a gynhyrchwyd gan y tîm, sy'n dod o ystod eang ac amrywiol o rolau. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar gynhwysiant, tegwch, cynrychiolaeth a hil gan y cydweithwyr Zoe Hilton a Dr. Kerry-Ann Holder; Zoe o'i phrofiad yn gwirfoddoli yn y gwersylloedd i ffoaduriaid yng ngogledd Ffrainc a Kerry-Ann o'i phrofiad fel meddyg ymgynghorol du, benywaidd sydd wedi'i magu, ac yn byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd. Mae prosiectau eraill yn cynnwys gwaith gan Dr. Fiona Brennan, un o ysgogwyr lechyd Gwyrdd Cymru, sy'n helpu i leihau effaith amgylcheddol y gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Mae ail garfan Climb hanner ffordd drwy eu rhaglen ar hyn o bryd ac mae recriwtio ar gyfer y trydydd ar y gweill. Mae ceisiadau ar agor tan ddydd Gwener, 3 Chwefror. Ceir rhagor o wybodaeth ar [wefan Sefydliad Calon y Ddraig](#).

Ffair Swyddi Caerdydd a Digwyddiad Cefnogi Ffoaduriaid

Aeth y Tîm Adnoddau Pobl i Ffair Swyddi Caerdydd a Digwyddiad Cefnogi Ffoaduriaid ddydd Iau diwethaf yng Nghanolfan Siopa'r Capitol, a drefnwyd gan Wasanaeth Cyngor Into Work ar y cyd â DWP a Chyngor Caerdydd. Gwnaeth dros 200 o unigolion arwyddo cofnod y Bwrdd Iechyd a'r gobaith yw y bydd llawer o'r rhain yn mynd ymlaen i fod yn ddarpar weithwyr.



Roedd y digwyddiad hwn yn un o'r digwyddiadau prysuraf y mae'r tîm wedi eu mynychu ac wedi ein helpu i gefnogi Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru drwy hyrwyddo gyrfaedd yn y BIP a recriwtio gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac sy'n dod o ardaloedd difreintiedig yng Nghaerdydd a'r Fro.

Ffarwelio â chydweithiwr gwerthfawr

Ar ôl dros bedwar degawd o wasanaeth ymroddedig i iechyd meddwl, mae Martin Ford, Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Seicoleg a Therapiau Seicolegol, wedi ymddeol.



Yn ystod ei yrfa mae Martin wedi gwneud cyfraniad mawr wrth ddatblygu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Sylfaenol yng Nghaerdydd a'r Fro i gyflawni ymyriadau cyflym, effeithiol o ansawdd uchel i filoedd o bobl â chyflyrau cymhleth.

Roedd ei gydweithiwr Dan Crossland, Cyfarwyddwr Gweithrediadau y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl, eisiau diolch i Martin am ei flynyddoedd o wasanaeth:

"Mae Martin wedi bod yn llaw gadarn gyson ar gyfer y gwasanaethau, bob amser yn barod gyda gwybodaeth sy'n deillio o flynyddoedd o brofiad. Mae wedi bod yn bleser gweithio gydag ef a bydd yn golled enfawr i'n tîm. Mae'n gadael etifeddiaeth barhaol o ragoriaeth a fydd yn anodd ei chyfateb.

"Ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl a Chyfarwyddiaeth Seicoleg a Therapiau Seicolegol, hoffwn ddymuno ymddeoliad hir a hapus iddo."